Cenn@d
6 Mai 2026
Rhifyn 271
WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG
a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru
UBC BUW

# Paratoi ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol 10–16 Mai 2026

cymorth cristnogol christian aid

**'Pan fydda i'n deffro, rwy'n meddwl am fy holl bryderon. Weithiau does gen i ddim bwyd,'** meddai Fridah Moraa, sy'n wynebu brwydr ddyddiol i fwydo'i theulu oherwydd tlodi trefol. Hanes mamau fel Fridah sydd dan sylw yn ymgyrch Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.

Mae Fridah Moraa yn byw mewn pentref anffurfiol yn Dagoretti yn Nairobi, Kenya. Mae hi'n rhentu caban metel i gartrefu ei hefeilliaid 13 mlwydd oed, Eliud ac Abiud, ei merch, a'i hŵyr pedair oed, Quillan. Does ganddyn nhw ddim dŵr tap yn eu cartref ac maen nhw'n rhannu toiled sylfaenol gyda llawer o deuluoedd eraill. Yn ddiweddar, collodd Fridah ei gŵr mewn damwain drasig ac mae'n ei golli'n fawr. 'Mae wedi gadael bwlch mawr,' meddai.

Mae Dagoretti yn lle prysur a swnllyd, a'i rythm yn cael ei reoli gan gyflymder y preswylwyr sy'n cael eu gorfodi i fyw'n ansicr o ddydd i ddydd. Mae'n anodd cael swydd sicr, ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn ennill llai na doler y dydd, felly brwydr gyson yw prynu bwyd ar gyfer eu plant. Gyda rhent, dŵr, ysgol a meddyginiaethau i dalu amdanynt hefyd, does dim digon o arian ar gael weithiau ar gyfer pryd o fwyd. Yno, mae chwant bwyd yn dwysáu'r straen ddi-baid.



*Fridah â'i hŵyr, Quillan, y tu allan i'w cartref yn Dagoretti*
Llun: David Macharia/Cymorth Cristnogol

Gall bywyd o ddydd i ddydd Fridah fod yn ansicr. Mae hi'n deffro bob bore yn poeni am fwydo'i theulu. 'Ond alla i ddim rhoi'r ffidil yn y to,' meddai Fridah, 'mae angen i fy mhlant fynd i'r ysgol. Mae angen iddyn nhw fwyta.'

Mae Fridah wedi bod yn ceisio datblygu incwm sefydlog drwy werthu llysiau, gan wneud taith ddwy awr i brynu cynnyrch cyfanwerthu chwe diwrnod yr wythnos. Rai dyddiau, nid yw'n gwerthu digon o'r cynnyrch ar ei stondin yn y farchnad. Ar y diwrnodau hyn, mae hi'n mynd heb fwyd, er mwyn i'r plant allu bwyta.

### *Imarisha Kilimo*

Yn ddiweddar, mae Fridah wedi manteisio ar gyfle gan brosiect o'r enw 'Imarisha Kilimo', sef 'cryfhau amaethyddiaeth' mewn Swahili. Mae'r prosiect hwn, sy'n cael ei redeg gan Beacon of Hope, sef partner Cymorth Cristnogol, yn hyfforddi menywod fel Fridah mewn ffermio trefol.

Cofio Dafydd Henry Owen
Tudalen 3

Cyflwyno Medal Gee i Jane Richards
Tudalen 4

Pynciau Perthnasol Rosa
Tudalen 5

Mae teuluoedd yn dysgu tyfu llysiau mewn mannau bach, gan ddefnyddio gerddi siâp côn, a dull plannu fertigol. Maen nhw'n dysgu casglu dŵr glaw, yn gwneud compost organig, ac yn defnyddio dadhydradwyr er mwyn cadw bwyd yn hirach.

Erbyn hyn, ym mhen pellaf y llwybr concrit, mae Fridah yn trin ei fferm drefol ffrwythlon, sy'n llawn cêl, tomatos a llysiau eraill. Mae ei phlant a'i hŵyr yn bwyta llysiau ffres, ac mae hi'n gwerthu ei chynnyrch yn y farchnad.

I Fridah, mae hyn wedi bod yn drawsnewidiol. 'Rydw i nawr yn gallu cynllunio ... Rydw i'n gallu helpu fy nheulu. Mae ffermio trefol wedi newid fy mywyd.'

Mae Beacon of Hope yn cynnig cyfle i drigolion Dagoretti hyfforddi fel ffermwyr trefol. Gyda sesiynau sgiliau, hadau, offer a lleiniau sy'n arbed lle i dyfu cynnyrch ger eu cartrefi, mae rhieni fel Fridah yn troi'r llanw ar dlodi trefol. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn dysgu sut i reoli plâu, cynhyrchu compost, tyfu hadau, a mynd â'u cynnyrch eu hunain i'r farchnad.

## Gweithredu'n ffyddlon

Mae'r Ysgrythur yn dweud wrthym ni: 'Y mae'r hwn sy'n eich galw yn ffyddlon, ac fe gyflawna ef hyn' (1 Thesaloniaid 5:24). Mae cariad a gofal diderfyn Duw yn cael ei gynnig i ni drwy'r amser. Gelwir arnom i adlewyrchu natur ffyddlon a thosturiol Duw yn ein geiriau a'n gweithredoedd ein hunain.

Wythnos Cymorth Cristnogol yw un o'r enghreifftiau mwyaf o dystiolaethu Cristnogol yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Mae'r weithred bwerus hon o dystiolaeth yn ariannu nifer fawr o brosiectau sy'n cefnogi cymunedau ledled y byd i drawsnewid eu bywydau a'u dyfodol eu hunain.

Eleni daw Wythnos Cymorth Cristnogol ddyddiau yn unig ar ôl Etholiad Senedd Cymru ac mae hefyd yn cyd-fynd ag wythnos o weithredu ar draws Prydain: 'A Million Acts of Hope'. Mae'n foment arbennig i ni fel Cristnogion yng Nghymru i rannu gyda'n cymunedau a'n gwleidyddion newydd am y gobaith sydd gennym a'r galwad arnom i weithredu dros gyfiawnder a rhoi terfyn ar dlodi.

Dywed Fridah wrthym: 'Mae'n anodd, ond yn Nuw rydw i'n ymddiried – i gael y nerth i ddal ati bob dydd.'

## Diolch!

Fel tîm Cymorth Cristnogol Cymru, hoffem rannu diolch o galon am bob gweithgaredd, pob gweddi ffyddlon a phob gweithred o obaith.

Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, mae gan bob un ohonom saith diwrnod i wneud gwahaniaeth. Beth wnewch chi? www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christian-aid-week

- Gallai £50 brynu'r sychwr solar sy'n troi cynnyrch ffres yn gynnyrch hir oes, gwerthfawr.
- Gallai £120 helpu i ariannu'r ciosg symudol sy'n golygu y gall ffermwr trefol fynd â'i nwyddau i'r farchnad yn hawdd.
- Gallai £750 dalu i 20 o ddarpar ffermwyr gael yr hyfforddiant a'r adnoddau i sefydlu lleiniau llysiau sy'n rhoi diwedd ar dlodi eu teuluoedd.



*O'r chwith – Abiud, Fridah, Quillan ac Eliud y tu allan i'w cartref yn Dagoretti, Nairobi.*
Llun: David Macharia/Cymorth Cristnogol

## Gweddi ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol

Dduw grasol,
pan fyddwn yn sefyll ar wastadeddau ansicrwydd,
heb lwybr o'n blaenau,
byddwn yn edrych atat ti.

Rydym yn cofio beth rwyt ti wedi'i wneud o'r blaen
ac mae'n cysuro ein calonnau pryderus.
Gan ddangos trugaredd,
fe wnaethost ti ein gwared ni bryd hynny;
yn dy gariad a'th ffyddlondeb,
fe fyddi'n gwneud hynny eto.

Dyro nerth i ni gamu ymlaen mewn gobaith.
Dyro ffydd i ni sy'n ein newid ni,
gobaith sy'n ein bwydo ni,
cariad sy'n ein symud ni.
Yn enw Iesu,
Amen.

*Gan Bob Kikuyu, Cynghorydd Diwinyddiaeth Fyd-eang Cymorth Cristnogol, Nairobi*



*Fridah yn gofalu am ei gardd fach, fertigol, werdd yn Dagoretti*
**Llun:** David Macharia/Cymorth Cristnogol

# Cofio Dafydd Henry Owen


## gan W. Bryn Williams, Pwllheli

Ganwyd Dafydd ar 24 Mai 1935 ac, o ran ei deulu, roedd yn fab i Glynne a Menna Owen, Siop Eryri, Pontrhythallt, Llanrug, ac yn frawd i'r Parchedig G. Tudor Owen. Aelodau yng Nghapel Pontrhythallt, Llanrug, oedd y teulu a'i dad yn flaenor arbennig yn yr eglwys, yn bregethwr cynnes ac yn anogwr caredig. Roedd Menna, mam Dafydd, yn orwyres i John Hughes, Dinorwig, a fu'n gyfrifol am sefydlu'r achos Methodistaidd cyntaf yn Ninorwig ac ef hefyd fu'n symbylydd i adeiladu'r capel hardd ar waelod y pentref yng nghanol y 19eg ganrif. Roedd Menna hefyd yn chwaer i'r Parchedig H. D. Hughes, Disgwylfa, Caergybi, tad y gwleidydd Cledwyn Hughes. Drwy enynnau ei fam etifeddodd Dafydd yntau'r un anian i sefyll dros gyfiawnder a gofal cymdeithasol drwy gydol ei oes. Ond yn fwy na gwleidyddiaeth plaid, fe drwythwyd Dafydd gan ei dad a'i fam yn egwyddorion y ffydd ac yng ngwleidyddiaeth eglwysig Presbyteriaeth ar ei gorau.

Llwyddodd Dafydd drwy gydol ei addysg a hynny o gyfnod Ysgol Gynradd Llanrug, Ysgol Ramadeg Brynrefail a Phrifysgol Aberystwyth, lle enillodd radd BSc. Wrth ddilyn ei gwrs gwyddonol y cyfeiriwyd calon Dafydd i gyflwyno'i hun yn ymgeisydd am y weinidogaeth ac i ymgymryd â chwrs diwinyddol, gan gwblhau ei BD yr un mor llwyddiannus.

Ond gallaf ddweud hefyd nad llwyddiant academaidd yn unig aeth â bryd Dafydd ym mlynyddoedd ei arddegau adref yn Llanrug, achos yn y cyfnod hwnnw roedd merch ifanc o Gaernarfon yn dod ar wyliau i gartref ei thaid a'i nain ym mhentref Llanrug ac felly y blodeuodd y cariad rhwng Brenda a Dafydd. Lle braf iawn i ddau gariad gyfarfod ei gilydd oedd pentref Llanrug, hefo bws a thrên yn cysylltu'r pentref a chartref Brenda yn nhre Caernarfon. Bu'r bartneriaeth rhwng y ddau'n allweddol i gyfraniad Dafydd weddill ei oes, gyda chefnogaeth Brenda yn gynhaliaeth ac yn gefnogaeth dawel a chadarn iddo.

Yn dilyn ei gyfnod yn y Coleg Diwinyddol cychwynnodd Dafydd a Brenda ar eu taith yn y weinidogaeth yn ardal Llansteffan, gan wneud lle cynnes iawn i'w hunain yno oherwydd eu hymroddiad i'w gwaith. Yn ystod cyfnod Llansteffan daeth llawenydd di-ben-draw i fywyd Dafydd a Brenda wrth i'r efeilliaid Rhys a Rhian lenwi eu haelwyd i'r ymylon.



Y cam nesaf i Dafydd a Brenda oedd derbyn gwahoddiad oddi wrth Eglwys Ebeneser, Caergybi. Yno, yn nhref fwyaf poblog Môn roedd yn dilyn HD, ei ewythr, fel gweinidog. Yma canolbwyntiodd Dafydd lawer o'i ymdrechion nid yn unig gydag ieuenctid Ebeneser ond ieuenctid tref Caergybi i gyd. Yn ogystal, yn ystod y cyfnod hwn bu Dafydd yn gwneud gwaith ymchwil i'r dulliau roedd enwadau eraill ym Mhrydain a thu hwnt yn eu defnyddio i weinidogaethu ymhlith pobl ifanc.

Erbyn hyn roedd hi'n gyfnod canol y 1960au a ninnau fel enwad wedi penderfynu dod â'r defnydd o Goleg y Bala fel sefydliad i hyfforddi gweinidogion i ben a chanoli'r hyfforddiant yn y Coleg Diwinyddol, Aberystwyth. Gwelodd DH ei gyfle yma a chflwyno cynllun arloesol i ddatblygu'r campws ardderchog ac ysblennydd yno fel Canolfan Ieuenctid, gyda'r weledigaeth i hwyluso'r gwaith o gyflwyno'r ffydd Gristnogol i genhedlaeth newydd.

Erbyn diwedd y degawd hwn roedd Dafydd wedi'i benodi'n Gaplan Ieuenctid a'r gwaith wedi ei ganoli yng Ngholeg y Bala. Gwelodd DH fod heriau megis seciwlariaeth ymwthgar, diweithdra cynyddol, gwahanol fathau o ddibyniaeth, ynghyd â phwysau cynyddol o fewn yr uned deuluol, yn feysydd i'r Eglwys ymgodymu â hwy. Wynebodd y sialensau hyn gan deilwrio cyrsiau i gyfarfod â'r gwahanol feysydd hyn. Fel canlyniad, dwysbigwyd calonnau cenhedlaeth newydd, ac o'r genhedlaeth honno, o dan gyfeiriad DH Owen, cychwynnodd llawer ohonom ar ein teithiau yng ngwaith yr Arglwydd. Mae'r niferoedd hyn yn llawer rhy eang i ddechrau eu henwi, ond mae etifeddiaeth Dafydd yn dal i siarad trwom, gobeithio.

Erbyn diwedd yr 1970au gwahoddwyd Dafydd i ymgymryd â swydd Ysgrifennydd Bwrdd y Genhadaeth. Yma eto bu'n ymateb i amgylchiadau cenhadu mewn cyfnod newydd, gan ddiwygio a datblygu fframwaith effeithiol ar gyfer y cyfnod hwnnw. Dyma gyfnod pryd y cafodd Dafydd lwyfan ehangach eto i'w ddoniau, a hynny'n rhyngwladol. O fewn y swydd hon, cafodd ei adnabod nid yn unig fel arweinydd ond fel gwladweinydd eglwysig hefyd.

I arweinwyr ein heglwysi dros y deugain mlynedd diwethaf, mae'n debyg mai gwaith Dafydd fel Ysgrifennydd Cyffredinol sy'n crynhoi ei gyfraniad. Dafydd oedd y cyntaf i ymgymryd â'r swydd newydd hon ac iddi daeth â chatalog o'i brofiadau cynt. Llwyddodd ynddi oherwydd ei baratoi trylwyr, ei ysbryd cydnaws, ynghyd â'i allu cynhenid i gyflwyno'i weledigaeth fel bargyfreithiwr ein Llawlyfr Trefn a Rheolau.

Her olaf Dafydd a Brenda cyn ymddeol oedd gweinidogaethu ymhlith eglwysi'r enwad yn Llundain a thra oedd yno bu hefyd, yn rhan-amser felly, yn diwygio ac addasu'r Llawlyfr Trefn ochr yn ochr â phenderfyniadau'r Gymanfa dros y blynyddoedd diweddar. Gwnaeth Dafydd hynny eto â'r un ymroddiad a manylder.

D. H. Owen felly – disgybl cydwybodol, gweinidog ymroddgar, arloeswr eofn, gweinyddwr effeithiol, gwrandäwr caredig, disgyblwr grasol a'r gweinidog diysgog a ffyddlon i Iesu Grist.

Buasai ei hen hen daid, John Hughes, Dinorwig, wedi bod yn falch iawn o Dafydd, ac felly hefyd ei daid Henry Hughes (oddi yma daw'r Henry yn enw Dafydd) ond yn fwy felly Glynne a Menna Owen, ei dad a'i fam o Siop Eryri, Pontrhythallt, Llanrug.

Cofiwn yma yn ein gweddïau am ei gariad a'i briod, Brenda, ac am y plant, Rhys a Rhian, a'u teuluoedd.

*Paratowyd y deyrnged uchod i'w rhannu yng Nghymdeithasfa'r Gogledd, 21 Ebrill.*

*Cynhelir angladd y diweddar D. H. Owen ar 13 Mai am 1 o'r gloch yng nghapel Salem, Canton, Caerdydd, dan arweiniad ei weinidog, y Parch. Evan Morgan, a'i gyfaill, y Parch. D. Andrew Jones.*

# Cyflwyno Medal Gee i Miss Jane Richards, Llanbedr-goch





*O'r chwith i'r dde: Catrin Angharad, Elwyn Richards, Linda Lloyd Owen, Jane Richards, Gwenda Richards, Manon Angharad, Aled Davies*



*Plant yr Ysgol Sul yng nghwmni Jane*

Bu prysurdeb mawr ym mhentref Llanbedr-goch brynhawn Sadwrn, 18 Ebrill, pan gyflwynwyd y Fedal Gee i Miss Jane Richards. Bu aelodau a ffrindiau Capel Glasinfryn wrthi'n paratoi ers wythnosau, ac roedd y capel yn sgleinio a phopeth yn barod erbyn y diwrnod mawr.

Yng nghapel Glasinfryn y magwyd Jane Richards a bu'n aelod yno ar hyd ei hoes, gan fynychu'r ysgol Sul ers yn blentyn. Am flynyddoedd lawer bu'n athrawes ysgol Sul, a chyflwynodd genedlaethau o blant i straeon y Beibl a bywyd yr eglwys. Bu'n trefnu gwasanaethau ac yn cynnal cyfarfodydd plant ar hyd y blynyddoedd, yn weithgar yn y gylchwyl a'r gymanfa blant pan oedd y rheini mewn bri, ac yn ysgrifennydd Pwyllgor Ysgolion Sul Henaduriaeth Môn. Codwyd hi'n flaenor yn 1981 a hi yw Ysgrifennydd cyfredol yr Henaduriaeth. Mae'r ysgol Sul yn dal i ffynnu yng Nglasinfryn dan ei gofal ac yn denu plant o ardal eang. Cynhelir yno wasanaethau teulu yn gyson ac mae amryw o ieuenctid yr ynys yn ddiolchgar iddi am y cyfle a gawsant dan ei harweiniad.

Roedd y gynulleidfa gref yng nghyfarfod cyflwyno'r Fedal Gee yn adlewyrchu gwerthfawrogiad yr eglwys a'r ardal o'i llafur, a chafwyd oedfa fendithiol a chofiadwy dan arweiniad y Parchedig Aled Davies, ysgrifennydd y Cyngor Ysgolion Sul. Canodd y plant a'u rhieni gân 'Dathlu'r Fedal Gee', y lluniwyd ei geiriau'n arbennig ar gyfer yr achlysur gan Catrin Angharad, un o blant Glasinfryn – cân oedd yn llawn cyfeiriadau lleol, ac fe'i cyflwynwyd ag asbri, gyda Glenys Ann Roberts yn cyfeilio.

Yn ei anerchiad cyfeiriodd y Parchg Aled Davies at ddameg yr heuwr gan bwysleisio pwysigrwydd y gwaith o hau had y Gair gan herio'r plant yn arbennig i ddal ati i fynychu'r ysgol Sul er mwyn iddynt hwythau gael Medal Gee ryw ddiwrnod. Cyflwynodd Catrin Angharad a'i chyfnither, Manon, 'Ffosfelen' gan Eric Jones fel deuawd a bu'n fraint eu clywed. Cyflwynwyd Jane i dderbyn y fedal gan ei chyd-flaenor, Mrs Linda Lloyd Owen, a hi hefyd a groesawodd bawb i'r oedfa.

Wrth ymateb i'r cyflwyniad mynegodd Jane ei diolchgarwch nid yn unig i bawb a fu'n gyfrifol am drefnu'r gwasanaeth a'r te helaeth oedd i ddilyn yn Neuadd Pentraeth, ond hefyd i gyn-weinidogion, blaenoriaid ac athrawon ysgol Sul Glasinfryn fu'n ganllaw iddi ar ei thaith ysbrydol. Nododd gymaint o fwynhad a gafodd wrth ddysgu sawl cenhedlaeth o blant am Iesu Grist a'i efengyl, a'r mwynhad a gafodd hefyd o baratoi'r gwersi ar eu cyfer. Ni ellir disgwyl ymateb cadarnhaol gan y plant heb baratoi, meddai, a phwysleisiodd iddi gael esiampl dda yn hynny o beth gan lu o athrawon cydwybodol fu'n dysgu'r plant yng Nglasinfryn.

Cymerwyd rhan yn yr oedfa hefyd gan y Parchedig Ddr Elwyn Richards a'i briod, y Parchedig Gwenda Richards, brawd a chwaer yng nghyfraith Jane. Yn dilyn yr oedfa, cafodd pawb fwynhau gwledd o fwyd a baratowyd gan chwiorydd a chyfeillion Glasinfryn.



# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt



Pryd oedd y tro diwethaf i chi ddarllen llythyr cyntaf yr apostol Pedr? Mae Pedr yn taclo cwestiwn y berthynas rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth, ac felly'n berthnasol iawn i ni yng nghyfnod etholiadau'r Senedd.

Mae'r llythyr yn agor fel hyn: 'Pedr, apostol Iesu Grist, at y dieithriaid sydd ar wasgar yn Pontus, Galatia, Capadocia, Asia a Bithynia' (sef ardal Twrci heddiw, fwy na lai). Ac wedyn mae Pedr yn dweud eto: 'Gyfeillion annwyl, rwy'n deisyf arnoch, fel alltudion a dieithriaid ...'

Mae Pedr felly'n annerch grŵp o bobl yn uniongyrchol: alltudion a dieithriaid. Ymadrodd cyfreithiol ag ystyr dechnegol oedd yr ymadrodd 'alltudion a dieithriaid'. Yn gyfreithiol, hawliau cyfyngedig iawn oedd gan dramorwyr o'r fath. Doedden nhw ddim yn gallu dewis pwy i'w briodi, doedden nhw ddim yn gallu bod yn berchen ar dir na phleidleisio. Roedd y gyfraith yna i sicrhau na fyddai'r tramorwyr hyn yn gallu setlo'n hawdd yn y wlad. Roedden nhw'n talu trethi uwch na phobl eraill. A hwythau wedi'u gwahanu oddi wrth eu gwreiddiau ethnig, eu hiaith, eu diwylliant, a'u teyrngarwch gwleidyddol neu grefyddol, roedd dieithriaid o'r fath yn cael eu hystyried yn fygythiad i'r drefn ac i les y brodorion. Roedden nhw'n dioddef yn gyson o ofn ac amheuaeth yn lleol, ac yn aml iawn roedden nhw'n cael eu twyllo gan y bobl leol.

Wrth gwrs, mae'r un broblem yn union yn codi i ni heddiw. Mae'r newyddion yn llawn straeon am ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Yn ôl rhai, maen nhw'n bygwth sefydlogrwydd ein gwlad ac yn aml iawn maen nhw'n cael eu portreadu fel pobl dreisgar neu bobl sy'n ceisio twyllo'r rhai sy'n perthyn go iawn. Ac, yn anffodus, weithiau mae hynny'n wir heddiw hefyd. Ond nid bob amser, wrth gwrs.

Ac i rai sy'n derbyn caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig, weithiau mae amod ynghlwm â'r aros. Mae categori swyddogol o bobl Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (*No Recourse to Public Funds)*: amod ar rai unigolion sydd o dan reolaeth fewnfudo, sy'n eu hatal rhag hawlio budd-daliadau a chymorth tai.

Felly, mae'r bobl yng Nghymru sydd heb hawl i arian cyhoeddus yn yr un sefyllfa yn union â'r 'alltudion a'r dieithriaid' yr oedd Pedr yn ysgrifennu atynt, yn eu galw'n gyfeillion, ac yn eu hannog i ddechrau byw bywyd newydd yn Iesu Grist.

Nawr ein bod ni'n deall beth oedd Pedr yn ei olygu wrth alltudion a dieithriaid, rydyn ni mewn gwell sefyllfa i ddeall ei neges anhygoel. A dyma'r neges. Chi – alltudion a dieithriaid. Chi sydd heb groeso yn y gymdeithas – mae croeso go iawn i chi yn eglwysi Iesu Grist Pontus, Galatia, Capadocia, Asia a Bithynia. Chi sydd ddim yn perthyn yn y gymdeithas – rydych chi'n perthyn i eglwysi Iesu Grist Pontus, Galatia, Capadocia, Asia a Bithynia. Chi sydd heb gartref parhaol yn y ddinas – mae cartref parhaol i chi yn eglwysi Iesu Grist Pontus, Galatia, Capadocia, Asia a Bithynia. Chi, nad ydych yn gallu pleidleisio neu ddylanwadu ar fywyd y gymdeithas – rydych yn aelodau llawn yn eglwysi Iesu Grist Pontus, Galatia, Capadocia, Asia a Bithynia, ac yn gallu eu harwain. Chi, nad oes hawl gennych i fwyta gyda dynion rhydd – croeso mawr i chi eistedd gyda dynion rhydd a chyfoethog yn eglwysi Iesu Grist Pontus, Galatia, Capadocia, Asia a Bithynia, a rhannu swper ein Harglwydd gyda nhw.

## Beth yw'r neges i ni, heddiw, yng Nghymru 2026?

Y peth hollol syfrdanol am neges Pedr yw'r ffaith fod eglwysi Iesu Grist Pontus, Galatia, Capadocia, Asia a Bithynia wedi croesawu pobl heb hawl i arian fel aelodau.

Yr her i'n heglwysi ni felly yw hon. Ble mae'r bobl heb hawl i arian? Os nad ydyn nhw yn y gynulleidfa ac yn y sedd fawr – beth yw'r rheswm am hynny? A fyddai croeso iddyn nhw? A fyddai Pedr yn gallu dweud:

Chi – ffoaduriaid, pobl heb hawl i gyllid.

Chi sydd heb groeso yn y gymdeithas – mae croeso go iawn i chi yn eglwysi Cymru.

Chi sydd ddim yn perthyn yn y gymdeithas – rydych chi'n perthyn i eglwysi Cymru.

Chi sy'n ddigartref – mae cartref parhaol i chi yn eglwysi Cymru.

Chi, nad ydych chi'n gallu pleidleisio neu ddylanwadu ar fywyd y gymdeithas – rydych yn aelodau llawn yng nghapeli Cymru ac yn gallu eu harwain.

Chi, nad ydy pobl yn eich trin â pharch yn ein cymdeithas – yn eglwysi a chapeli Cymru mae pob parch i chi.

Oblegid yr ydych bawb, trwy ffydd, yn blant Duw yng Nghrist Iesu. Oherwydd y mae pob un ohonoch sydd wedi ei fedyddio i Grist wedi gwisgo Crist amdano. Nid oes rhagor rhwng penaethiaid ysgol a gyrwyr Uber, rhwng meddygon a glanhawyr, rhwng gwryw a benyw, oherwydd un person ydych chwi oll yng Nghrist Iesu.

**Y Weinidogaeth Iacháu**

**Cynhelir Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu**

**18–21 Mai 2026**
yng
Nghanolfan Gristnogol Cefn Lea,
Dolfor, ger y Drenewydd, Powys, SY16 4AJ




Mae ychydig o le ar ôl
Am ragor o fanylion, cysyllter â:
nerysrowlands@hotmail.co.uk

Dewch i fwynhau pedwar diwrnod llawn bendithion, a chyfle i wneud ffrindiau newydd.
Y gost yw £160 yr un – rhannu ystafell; ystafell sengl – £180

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

## Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 21

## Ymson Abigail

Bûm unwaith yn wraig i Nabal, ond oherwydd ei ynfydrwydd, bu raid imi ddewis sefyll yn y bwlch rhwng chwalfa a gras.

Un diwrnod, daeth gweision Dafydd i ofyn am gymwynas o letygarwch. Roedden nhw'n glên ac yn gwrtais. Maen nhw eisoes wedi dangos parch tuag atom, a nawr roedd eu harweinydd am dderbyn ffafr gennym. Ond chwarddodd Nabal yn drahaus. Nid dyn i sathru arno oedd Dafydd, nac un a ymatebai'n dda i gael ei sarhau. Gwyddwn, y funud honno, y byddai marwolaeth yn curo ar ein drws ryw ddydd ac mai fi fyddai'r un i ateb y galw.

Gwyddwn hefyd am y perygl o dywallt gwaed ac y byddai pobl ddiniwed yn dioddef yn sgil hynny. Allwn i ddim sefyll yn y gornel a gwneud dim ond gwylio. Felly rhoddais fy meddwl ar waith a blaengynllunio. Doedd dim pwrpas oedi 'chwaith. Gwell fyddai gweithredu ar fyrder.

Casglais ynghyd y nwyddau pwrpasol: y pethau fyddai'n cael eu gwerthfawrogi gan ddynion Dafydd – bara, gwin, ffrwythau sych, grawn a chig. Penderfynais mai gwell fyddai peidio gofyn am ganiatâd. Wrth gwrs, roedd hyn yn beryglus, ond 'dyw doethineb ddim yn disgwyl am ymateb gan ffolineb. Ffwlbri fyddai hynny! Felly, paratoais yr asyn, a chychwyn ar fy nhaith.

Wrth imi gyrraedd, gwelais gadernid Dafydd. Ond gwelais wylltineb hefyd yn ei lygaid. Doedd o ddim yn hapus, o bell ffordd! Clywais gleddyfau ei araith danllyd cyn gweld y cleddyf yn ei wregys. Yna, o rywle, daeth byddin o bedwar cant a'u camau hwythau'n atsain dicter. Neidiais oddi ar yr asyn. Syrthiais i'r llawr. Ro'n i wedi dychymygu beth fyddwn yn ei wneud, wedi cyfarwyddo fy hun yn y ddrama hon. A nawr roedd llenni'r llwyfan wedi agor!

Plygais fy mhen nes bod fy nhrwyn yn cyffwrdd llwch y llawr. Siaradais â llais melfedaidd. Roedd pob gair wedi'i ymarfer gen i drosodd a thro, pob anadl yn araf, a phob goslef yn glir. Ro'n i'n benderfynol o ddangos fy noethineb a gwneud hynny'n sicr ond yn gynnes. Ro'n i am iddo ddeall fy mod i'n deall beth yw gras a thrugaredd a chyfiawnder.

"Rho'r bai arnaf fi," meddwn. Yn fy meddwl, gwyddwn nad arnaf fi oedd y bai wrth gwrs, ond weithiau mae un person yn gorfod cario'r baich. Atgoffais ef mai arweinydd a ddewiswyd gan Dduw ydoedd, un oedd wedi'i ethol i fod yn frenin. Doedd dim pwrpas mewn tywallt gwaed yn ddianghenraid. Gwaed felly sy'n creu staen anodd ei lanhau. Gwell fyddai gadael i Dduw ddelio â'r cyfan, cyflwyno'r sefyllfa i'r Un sy'n rhagdybio popeth.

Dyna a ddywedais. Yn araf, fe'i teimlwn yn newid; roedd yn gwrando. Codais fy nhrem a meiddio edrych i fyny arno. Cyfarfu ein llygaid. Crëwyd dolen rhyngom. Roedd yn amlwg yn falch fy mod wedi gweithredu, wedi ei atal rhag gwneud cam gwag, wedi gwisgo clogyn eiriolaeth. Diolch byth!

Dychwelais adref i gyflafan o feddwdod. Gadewais Nabal tan y bore. Esboniais. Cafodd drawiad.

Cofiodd Dafydd amdanaf. Cofiwch chithau mai dewrder tawel sy'n ennill y dydd, bod gweld yr hyn mae eraill yn gwrthod sylwi arno a chamu i'r goleuni pan fo eraill yn dal 'nôl yn hanfodol. Dysgwn beth yw gwir ddoethineb: pryd i wneud a gwybod pryd i ddweud 'Na. Dyna ddigon. Dim mwy.' Cofiwch, cofia.

### Holi

- Dengys Abigail wyleidd-dra a hyfedredd. A yw hyn yn anodd weithiau, yn enwedig wrth wynebu anghyfiawnder neu wrthdaro? Beth allwn ni ei ddysgu am gamau gweithredol mewn sefyllfa anodd?
- Cymryd cyfrifoldeb am sefyllfa nad oedd ganddi ran ynddi, na bai amdani, wnaeth Abigail. Oes amodau neu sefyllfaoedd lle mae hyn yn bwrpasol a rhesymegol?
- Apeliodd Abigail at falchder a chred Dafydd yn ei alwad. Sut allwn ni annog eraill i gynyddu, tyfu a gwireddu eu haddewid neu eu potensial, yn hytrach nag ymateb iddynt fel ag y maent nawr?
- Oes yna ddolen rhwng stori Abigail a Dafydd â'r ddysgeidiaeth yn Rhufeiniaid 12:17–19?
- Sut mae rôl Abigail yn rhagfynegi themâu beiblaidd y Testament Newydd, yn enwedig mewn perthynas ag Iesu Grist fel yr Eiriolwr mwyaf un?

### Gweddi

Bendithia ni â doethineb, fel y byddwn yn gwybod sut mae ymddwyn mewn sefyllfaoedd llawn tyndra a thensiwn. Dyro, inni ddewrder gostyngedig. Dysg ni i fod yn offerynnau dy dangnefedd. Llunia ein bywydau i adlewyrchu gwirionedd a gras. Cadw ein calonnau rhag balchder fel y byddwn yn dy anrhydeddu Di ac yn mynegi dy drugaredd. Bendithia ni, dyro inni, dysg ni, llunia ni, cadw ni oll yn dy gariad, 'fel bo i eraill, trwom ni, / adnabod cariad Duw'. Amen.

*Sian Meinir*

BBC radio cymru | S4C

**Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 10 Mai 2026**

**Radio Cymru**
*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 10 Mai, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Megan Williams, Porthaethwy

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 10 Mai am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad staff a chefnogwyr Cymorth Cristnogol

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 10 Mai, am 7:30yh –**
Cymorth Cristnogol
Bydd Lowri Morgan yn cwrdd ag Mari McNeill i nodi Wythnos Cymorth Cristnogol

# Newyddion BMS:
## Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr
gan Denzil I John

## BMS – edrych allan a gweld y lleol

Nodwedd ryfedd, ac eto un anodd i'w hamgyffred i gredinwyr ac anghredinwyr yng ngwledydd Prydain fel ei gilydd, yw gweld yr enwadau traddodiadol yn edwino. Maent yn chwilio am ffyrdd o fod yn gymunedau ffydd a derbyn bod oes yr adeiladau mawr, y pregethu areithiol a'r canu mawreddog yn dod i groesfannau anodd. Mae'r traddodiadol (o'n cefndir ni) yn ildio'i le i weld cynulliadau llai eu nifer mewn adeiladau aml-bwrpas, a fawr neb yn gwisgo'u 'dillad dydd Sul'. Nid oes llawer o weinidogion yn cael eu hyfforddi mewn colegau diwinyddol bellach, ac mae'r enwadau traddodiadol yn chwilio am ffyrdd newydd i 'fod yn eglwys', ac yn hyfforddi arweinwyr yr eglwysi i gynnig addysg, bugeiliaeth a chenhadaeth mewn diwyg gwahanol. Yn y gyfres fach yma o erthyglau, byddwn yn gofyn sut mae gwaith eglwysig yn digwydd mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y byd, ac a oes arferion a allai fod yn fuddiol i ni eu hystyried yn ein broydd ein hunain. Byddech yn disgwyl i weinidog o Fedyddiwr droi at yr hyn sy'n digwydd



*Dave a Michelle*



*Ronal a Margia a'u teulu*

yn y meysydd cenhadol, lle mae staff Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr (BMS) ar waith, ond mae'n siŵr fod adrannau cenhadol yr enwadau eraill yn cynnig tystiolaeth debyg.


Yn y cetyn cyntaf hwn, gwahoddaf chi i edrych ar fap o Dde America ar eich porwr (Google, er enghraifft) a darllen am Beriw, gwlad sy'n ddieithr iawn i mi. Mae'n wlad boeth a mynyddig, gyda llywodraeth led sefydlog, ond er bod yna gynnydd yn nifer y twristiaid sy'n mynd yno, mae angen gofal wrth deithio hefyd. Nodir bod 32 miliwn o ddinasyddion yn y wlad sy'n siarad 43 o ieithoedd amrywiol. Dywedir bod canran uchel (90%) yn Gatholigion, ond bod cynnydd hefyd ymhlith yr eglwysi Protestannaidd. Ceir llu o leoliadau archeolegol pwysig yno, a bydd y mwyafrif ohonom yn effro i'r ardaloedd poblogaidd fel Lima a Machu Picchu. Mae caniatâd i unrhyw un sefydlu cartref iddynt eu hunain ar y tiroedd lle nad oes unrhyw un yn byw, ac os gall cymuned o hyd at 100 mewn nifer fyw mewn rhan o'r anialdir hwn am dri mis, gallant gofrestru eu hawl i berchenogi'r tir. Gelwir hyn yn 'Invasión'. Mewn meysydd felly, nodir bod cenhadon yn mentro yno ac yn cynnig addysg, gofal meddygol a thystiolaeth ffydd.

Mae'r BMS yno'n cefnogi pobl fel y rhai sy'n rhan o drefedigaeth Carlos Quesquen Terri, nad oedd yn bod dair blynedd yn ôl. Y cwpl sy'n gwasanaethu BMS ers 2017 yw Dave a Michelle Mahon, gan weithio yn Trujillo, dinas sylweddol tua 300 milltir i'r gogledd o'r brifddinas Lima. Cyfrifoldeb Dave a Michelle yw cefnogi cenhadon lleol fel Margia a Ronal yn nhrefedigaeth Chepen. Un o'r ardal yw Ronal, ac fe brofodd dlodi a chaledi ei hun. Daeth i ffydd, a chyfarfod a phriodi ei gymar Margia. Cawsant gyfle i dderbyn hyfforddiant yng Ngholeg y Bedyddwyr, Trujillo, lle mae Dave a Michelle wedi eu sefydlu. Bellach maent wedi agor ysgol Sul gyda'r ifanc mewn adeilad aml-bwrpas ac yn cynnig neges Iesu i'r brodorion yno. Rhan werthfawr o waith Dave a Michelle yw cefnogi Ronal a Margia er mwyn eu calonogi a'u cadarnhau. Mae Dave a Michelle hefyd yn addysgu yn y coleg ac yn gweithio yn yr eglwys leol yn Trujillo, ond mae eu dylanwad ar y cenhadol brodorol mewn sawl lleoliad ym Mheriw, fel Ronal a Margia.

Mae nifer o genhadon / gweithwyr eglwysig o dramor eisoes yng Nghymru, a hynny o fewn y rhan fwyaf o'r enwadau. A fyddwn ni'n gweld Cymru fel maes cenhadol, ac a oes gan aelodau ein heglwysi ymdeimlad mai ein gwaith yw ymestyn ein neges a'n profiad am Iesu i'r sawl sy'n byw yn ein hymyl, ond yn ddieithr i'r ffydd? Profiad llawer sydd wedi bod yn canfasio yn yr etholiad ar gyfer y Senedd eleni yw fod llawer o ddihidrwydd, a dywed Wynford Ellis Owen fod llawer yn troi at alcohol a chyffuriau oherwydd tlodi eu profiadau ysbrydol. Mae'r maes cenhadol yn ein strydoedd ni. Faint o reddf genhadol Ronal a Margia i ddweud am Iesu sydd yn ein plith? Beth am drefnu darpariaeth ar gyfer plant ein broydd lleol sy'n byw yn ein plith, neu greu sefyllfa i'r unig a'r llesg rydym yn eu hadnabod? Pwy yw Ronal a Margia yn eich hardal chi? Arfogwch hwy, a'u cefnogi, er clod i Grist.

# Croeso i Soar y Mynydd

Mae ffyddloniaid capel Soar y Mynydd wedi bod yn brysur yn ddiweddar yn glanhau a pharatoi'r capel yn barod am dymor 2026.



Maent yn barod i groesawu pawb unwaith eto, gyda'r oedfa gyntaf ar 10 Mai, pan fydd Côr Merched Soar yng ngofal y gwasanaeth. Dewch yn llu. Dyma restr o'r Suliau – pob oedfa am 2.00 y pnawn.



| | |
|---|---|
| Mai 10fed | Côr Merched Soar |
| Mai 17eg | Helen Gwenllian, Llandysul |
| Mai 24ain | Parch. Athro D. Densil Morgan, Llanbedr Pont Steffan |
| Mai 31ain | Parch. Emyr Williams, Meidrim |
| Mehefin 7fed | Beti Griffiths, Llanilar |
| Mehefin 14eg | Lyn Ebenezer, Pontrhydfendigaid |
| Mehefin 21ain | Delyth Morgans Phillips, Talsarn |
| Mehefin 28ain | Parch. Aled Davies, Chwilog |
| Gorffennaf 5ed | Parch Ifan Mason Davies, Goginan |
| Gorffennaf 12fed | Parch Beth Davies, Bro Aeron Mydr |
| Gorffennaf 19eg | Parch Ian Sims, Llandeilo Fawr |
| Gorffennaf 26ain | Archddiacon Eileen Davies, Llanllwni |
| Awst 2il | Parch Iwan Llewelyn Jones, Porthmadog |
| Awst 9fed | Parch Carwyn Arthur, Tregaron |
| Awst 16eg | Eifion Thomas, Drenewydd |
| Awst 23ain | Parch. John Roberts, Aberystwyth |
| Awst 30ain | Parch. Aled Lewis, Pontrhydfendigaid |
| Medi 6ed | Parti Camddwr |
| Medi 13eg | Parch. Richard Lewis, Bow Street |
| Medi 20fed | Parch Wyn Thomas, Dre-fach |
| Medi 27ain | Elen Worman, Aberdyfi |
| Hydref 4ydd | **Cwrdd Diolchgarwch**<br>Parch. Gwilyn Wyn Roberts, Caerdydd |

Pwyllgor Sasiwn Cenhadol Chwiorydd y Gogledd

# Dathliad Cenhadol

## Capel y Rhos,



### Llandrillo yn Rhos (LL28 4FB)

### Dydd Iau, Mai 7fed 2026

### 2.00yp

**CROESO CYNNES I BAWB.**

**Siaradwr gwadd: Y Parch Owain Davies, Gweinidog Gofalaeth Nant Conwy**

**Thema newydd Pwyllgor y Chwiorydd am 2026:**

**'Gras ein Harglwydd Iesu Grist'** 2 Corinthiaid 13:13



gwahoddir chwi i ymuno am baned ar ôl y cyfarfod.

I holi am wybodaeth pellach cysylltwch gyda: Gwenith Jones (Ysgrifennydd) 01352 756038 neu Eirian Roberts (Swyddfa'r Chwiorydd) 01678 520065

## Dathlu'r Pasg yn Llanfair-pwll



Cafwyd amser bendithiol dros y Pasg wrth i ni ymestyn allan at deuluoedd a phlant ardal Llanfair-pwll. Cafwyd digwyddiad 'Dathlu'r Pasg' ar fore dydd Sadwrn, 28 Mawrth, yn Festri Rhos-y-gad, gyda nifer o deuluoedd yn ymuno. Braf iawn oedd gweld y bwrlwm a'r ymateb, ac mae rhai wynebau newydd wedi dod i'r ysgol Sul yn dilyn y digwyddiad yma. Yna, cafwyd cawl a gemau yn y parc yn ystod wythnos y Pasg. Diolchwn i Siôn Morris am helpu efo'r gemau, Elin ac Eli Williamson am eu cymorth gyda'r cawl, ac i Morgan Williams am gydlynu. Gweddïwn y bydd yr Arglwydd yn parhau i fendithio'r berthynas â'r gymuned leol.

*Alun M. Thomas*

**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.